**Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru:**
**Gofynion dylunio ar gyfer UG a Safon Uwch newydd mewn Cymraeg a Cymraeg Craidd**

Medi 2025

Ceir isod grynodeb o ymateb y Comisiynydd i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar UG a Safon Uwch newydd mewn Cymraeg a Cymraeg Craidd. Cyflwynwyd yr ymateb yn wreiddiol ar ffurf atebion i nifer o gwestiynau penodol ar ffurflen ar-lein.

**Trosolwg**

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cymeradwyo nod y cynigion o adeiladu ar y cymwysterau TGAU newydd, a fydd yn cefnogi dilyniant dysgwyr. Croesawn y cynigion i greu cymwysterau a fydd yn ddeniadol i ddysgwyr ledled Cymru. Mae'n hanfodol cynyddu apêl y cymwysterau hyn. Mae'n hollbwysig bod y cymwysterau yn atyniadol i bobl ifanc a'u bod yn teimlo eu bod yn berthnasol iddynt.

Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae'r nifer sy'n astudio cymwysterau UG a Safon Uwch yn y Gymraeg wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Trafodir hefyd yn y ddogfen y gostyngiad yn nifer yr athrawon sy'n gallu darparu'r cymwysterau hyn a heriau recriwtio athrawon. Mae hyn yn destun pryder mawr, yn enwedig yng nghyd-destun amcanion strategaeth *Cymraeg 2050* a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Mae angen cynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon a fydd yn gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc yn y dyfodol. Heb ddigon o athrawon â sgiliau Cymraeg, bydd rhwystr parhaus rhag sicrhau cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n gadael yr ysgol yn medru siarad Cymraeg a defnyddio'r iaith. Un rhan yn unig o'r darlun yw'r cymwysterau, ond cytunwn â'r farn a nodir yn y ddogfen ymgynghori am rôl y cymwysterau wrth gefnogi defnyddwyr Cymraeg hyderus gydol oes, dilyniant i astudio'r Gymraeg fel pwnc addysg uwch a gweithlu dwyieithog y dyfodol.

Mae'r sgiliau y bwriedir i ddysgwyr eu datblygu wrth baratoi ar gyfer y cymwysterau yn hanfodol ar gyfer y byd gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys cyfathrebu'n effeithiol, deall cynulleidfa a chyd-destun wrth gyfathrebu, dadansoddi testunau a gwrando ac ymateb i farn eraill. Rydym yn cefnogi'r bwriad i ddatblygu'r sgiliau hyn. Un o nodau *Cymraeg 2050* yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector. Mae hyn hefyd yn flaenoriaeth yng Nghynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2025-30. Yr her, yn ein barn ni, yw cynnal sgiliau Cymraeg pobl ifanc a throi siaradwyr yn ddefnyddwyr tymor hir. Mae canolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle â'r potensial i ddylanwadu ar ganfyddiad pobl o bwysigrwydd yr iaith, ar gyfleoedd i fagu hyder ieithyddol ac ar ddefnydd ehangach o'r Gymraeg yn y gymuned.

**Pwrpas a nodau'r cymwysterau**

Rydym yn cefnogi'r bwriad i'r cymwysterau alluogi dysgwyr i ddeall datblygiad a statws y Gymraeg a'r cyd-destunau ehangach sy'n effeithio ar y Gymraeg. Cytunwn â'r nod y dylai'r cymwysterau greu sylfaen i alluogi dysgwyr i barhau i astudio a defnyddio'r iaith yn effeithiol ac yn hyderus mewn cymdeithas ddwyieithog.

**Cyd-destunau dysgu**

Rydym yn cytuno y dylai'r cymwysterau alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith, a deall statws a defnydd y Gymraeg mewn gwlad ddwyieithog, gan gynnwys yn y gymuned, y gymdeithas a'r gweithle. Mae galw cynyddol am weithlu dwyieithog yng Nghymru heddiw. Erbyn hyn mae dros 130 o sefydliadau dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg, gan gynnwys rhai o gyflogwyr mwyaf Cymru. Gwyddom hefyd fod y Gymraeg yn sgil a werthfawrogir gan sefydliadau y tu hwnt i'r gyfundrefn safonau. Mae'r rhain yn cynnwys busnesau bach a mawr, rhai ohonynt wedi derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg. Credwn ei fod yn bwysig iawn i bobl ifanc ddeall y cyd-destun arwyddocaol hwn wrth astudio'r Gymraeg ac wrth ystyried eu dyfodol yn y byd gwaith. Dywed strategaeth *Cymraeg 2050* y 'bydd angen i bobl ifanc fod yn ymwybodol o fanteision parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle a phwysigrwydd defnyddio'r iaith yn gyson er mwyn cynnal rhuglder a hyder'.

**Cynnwys**

Hoffem ategu'r farn y dylid cynnwys amrywiaeth ehangach o gyd-destunau o fewn y cymwysterau, er mwyn apelio at ystod eang o ddysgwyr a datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i gefnogi dilyniant pellach.

Cytunwn y dylai'r cymwysterau gynnwys amrywiaeth o destunau o wahanol gyfnodau, gan gynnwys testunau cyfoes, er mwyn ehangu apêl a pherthnasedd y cymwysterau i ddysgwyr ifanc. Mae cyfle yma i bobl ifanc deimlo bod y cymwysterau yn berthnasol ac yn ddiddorol iddynt.

**Strwythur asesu**

Cytunwn y dylai'r asesiadau llafaredd roi cyfle i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Ategwn y farn y gallai hyn helpu dysgwyr wrth astudio'r Gymraeg ymhellach ac wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y byd gwaith. Yn achos y cymwysterau Cymraeg Craidd, cytunwn hefyd â'r farn y dylai'r cyd-destunau adlewyrchu nodau ehangach ar gyfer creu defnyddwyr hyderus ac annibynnol o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys yn gymdeithasol ac yn y byd gwaith. Cefnogwn y cynnig i gyflwyno tasgau sy'n canolbwyntio ar gymhwyso sgiliau cyfathrebu mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gynnwys y gweithle. Cefnogwn hefyd y nod o ddatblygu sgiliau y gellir eu mapio yn erbyn y Disgrifyddion Iaith Cyffredin a fydd yn cael eu diffinio yng Nghod Llywodraeth Cymru ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg.

Yng nghyd-destun y cymwysterau Cymraeg, rydym yn cytuno y dylai asesiadau gramadegol ganolbwyntio ar gymhwyso sgiliau ymarferol sy'n berthnasol i'r byd gwaith ac astudio ymhellach. Credwn hefyd y dylid datblygu dealltwriaeth o bosibiliadau defnyddio'r Gymraeg mewn cyweiriau gwahanol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn cyd-destun personol neu broffesiynol.

Cytunwn â'r bwriad i'r amcanion asesu gefnogi cysondeb â'r Lefelau Cyfeirio Cyffredin a fydd yn cael eu diffinio yng Nghod Llywodraeth Cymru ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg. Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu safonau'r Gymraeg yng nghyd-destun sgiliau Cymraeg y gweithlu er mwyn adlewyrchu'r Cod. Mae'n bwysig felly bod y cymwysterau yn cyfrannu at ddilyniant ieithyddol trwy ddatblygu sgiliau Cymraeg pobl ifanc er mwyn eu galluogi i gynyddu eu defnydd o'r sgiliau hynny wrth fynd i'r byd gwaith.